

CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN
COFNODION CYFARFOD TACHWEDD 2023
6 Tachwedd 2023 19.00 yn Y Ganolfan, Llanfrothen

1. Presennol

Cenwyn ap Tomos, Elin Jones, Glyn Griffiths,

Clerc: Huw Rowlands

Cadeirio: Nia Povey

2. Ymddiheuriadau

June Jones, Bethan Gritten, Siân Cwper

3. Datgan Diddordeb/Buddiant Personol

Dim

4. Cadarnhau Cofnodion Misol 11 Medi 2023

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 11 Medi 2023.

Cynnig: Nia Povey

Eilio: Elin Jones

5. Materion yn codi o'r Cofnodion

5.1 Cais Cynllunio Carreg Frech

Parheir i ddisgwyl ymateb pellach gan Barc Cenedlaethol Eryri ar y mater.

5.2 Y Ganolfan

Mae Gerddi a Tai Taclus wedi paentio drws Y Ganolfan, ac wedi glanhau'r chwyn o flaen Y Ganolfan.

5.3 Goryrru Llanfrothen a Gosod Cyflymdra 20 m.y.a.

Gosodwyd stribedi mesur cyflymder ar y Morfa i gyfeiriad Penrhyndeudraeth, ger y siop ar y ffordd i mewn i Lanfrothen ac ar y ffordd allan o Lanfrothen i gyfeiriad Tan Lan.

Bydd Cyngor Gwynedd yn danfon y canlyniadau.

Mae aelodau o'r cyhoedd wedi bod yn gofyn pam fod pentref Rhyd wedi cael ei eithrio o'r cyflymder 20 m.y.a. newydd.

Yr ateb a gafwyd gam Gyngor Gwynedd yw yn unol â'r canllawiau does dim digon o dai yn Rhyd sy'n wynebu'r ffordd i gyfiawnhau cyfyngiad o 20 m.y.a..

Mae'n debyg y bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r canllawiau dros y misoedd nesaf, ac efallai y bydd cyfle i adolygu bryd hynny.

5.4 Cysgodfan Fysiau

Cafwyd 4 cynllun drafft gan y pensaer Chris Wilderspin ac fe ddiolchwyd yn fawr iddo am ei waith di-dâl.

Ffaffriwyd opsiynau 2,3 a 4, gan fod ganddynt ochrau a bod y to yn cynnig mwy o gysgod. Nid oedd cefnogaeth gyffredinol i opsiwn 1, gan ei fod yn rhy agored.

Cytunwyd fod angen i gynllun unrhyw gysgodfan sicrhau fod y rhai oedd yn ei defnyddio yn medru gweld y bws yn dod heb orfod camu allan i'r ffordd.

Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu efo'r Pensaer er mwyn cael mwy o wybodaeth am faint a chost fras y cysgodfanau cyn gwneud penderfyniad terfynol ar y cynllun a ffafir.

Bwriedir trafod y cysgodfanau ac unrhyw gyfraniad ariannol yng nghyfarfod Ymddiriedolwyr Brondanw fis Rhagfyr.

5.5 Mynwent Tan Lan

Mae dau adeiladwr wedi edrych ar y piler ar y ffordd i mewn i'r fynwent, a does ganddynt ddim diddordeb i wneud y gwaith o'i ail osod gan ei fod yn waith anodd. Bydd angen peiriant er mwyn tyllu a chreu sylfaen.

Cafwyd pris gan Dylan Edwards am ail godi'r piler, sef £1,000.

Rhoddwyd ystyriaeth i'w ddymchwel, ond byddai hynny yn costio £500, ac felly fe gytunwyd i'w godi yn ei ôl. Gan ei fod yn fater cymharol frys fe gytunwyd i ofyn i Dylan Edwards wneud y gwaith.

Gofynnodd y Cynghorydd Nia Povey i Dylan Edwards wneud toriad ar y llwybr o gwmpas y fynwent. Mae wedi gwneud hynny, heb godi unrhyw dâl.

5.6 Clymog Siapan, Pont Haearn, Afon Caseg

Mae Peter Roberts wedi chwistrellu'r clymog. Disgwylir Anfoneb ganddo.

Bydd angen trin y clymog ymhellach yn ystod 2024.

5.7 13 Garreg Frech

Mae adran tai ac eiddo Cyngor Gwynedd yn dweud eu bod yn parhau i ddisgwyl cadarnhad o statws y cais am orchymyn arwystl gan yr adran dreth, ond yn deall fod yr adran dreth wedi mynychu Llys Ynadon

Caernarfon yn ystod y bythefnos ddiwethaf, ac yn gobeithio fod 13 Garreg Frech yn un o'r materion sydd wedi bod gerbron y llys.

Mae Elin Morus Evans wedi ei phenodi fel Swyddog Tai Gwag Cyngor Gwynedd, a Chyngor Gwynedd yn gobeithio y bydd hi yn adnodd fydd yn eu galluogi i fynd i'r afael â materion megis 13 Garreg Frech yn y dyfodol.

Atgoffodd y Cynghorydd Elin Jones fod Artro, Llanfrothen yn wag ers dros 10 mlynedd. Awgrymodd fod y cyngor cymuned yn ysgifennu at Gyngor Gwynedd y gofyn a fyddent yn medru dod a'r tŷ yn ôl i ddefnydd gan fod ganddynt yn awr Swyddog Tai Gwag.

5.8 Llwybr Llanfrothen - Penrhyndeudraeth

Cytunwyd I gysylltu efo Cyngor Tref Penrhyndeudraeth er mwyn gweld a fyddai diddordeb ganddynt i ail ddechrau'r trafodaethau cychwynnol fu efo nhw ar y mater yma ychydig flynyddoedd yn ôl.

5.9 Bws i Feddgelert

Cytunwyd mai lleoliad yr arosfan newydd arfaethedig fyddai'r safle priodol ar gyfer rhai sydd am ddal bws i Feddgelert neu Borthmadog.

5.10 Gordyfiant ger Llwyn Onn

Er bod Cyngor Gwynedd yn dweud fod y gwaith o dorri'r coed dros y ffordd i Llwyn Onn ar y ffordd allan o Lanfrothen am Tan Lan wedi cael ei wneud, nid yw'n ymddangos fod hyn wedi digwydd. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Chyngor Gwynedd unwaith eto ar y mater yma.

5.11 Gordyfiant ar y ffordd

Mae coed yn tyfu i'r ffordd ar hyd y Morfa o gaeau Stad Brondanw a pherchennog tir preifat.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at y perchnogion tir perthnasol yn gofyn iddynt eu tacluso.

6. Materion Ariannol

6.1 Cyflog Clerc Medi 2023 £239.72

TWE £59.80

6.2 Cyflog Clerc Hydref 2023 £239.72

TWE £59.80

- 6.3 Costau cyfrif HSBC prif gyfrif 21041169 hyd at 5 Medi 2023 - £8.00, 5 Hydref 2023 £8.00
- 6.4 Anfoneb Dunn & Ellis Anfoneb 149451 26/10/2023 £61.20
- 6.5 yuenergy 11 Medi £18.06
- 6.6 yuenergy 9 Hydref £17.60
- 6.7 Paentio drws Y Ganolfan £170.00
- 6.8 Gwaredu chwyn tu allan i'r Ganolfan £30.00
- 6.9 Balans yn y prif gyfrif 31 Hydref 2023 £22,777.52
- 6.10 Balans yn y cyfrif cadw 31 Hydref 2023 £21,409.46

7. Gohebiaeth

- **Cymunedau Gwyrdd Gwynedd**

Mae'r cynllun yma yn cynnig grant ar gyfer datblygu llefydd gwyrdd yn y gymuned. Gan nad oes ond tir y fynwent a thir y cae chwarae ar gael yn Llanfrothen, cytunwyd na fyddai hi'n bosibl gwneud cais o dan y grant yma.

- **Cronfa Grymuso Gwynedd**

Mae'r grofna yma yn cynnig grantiau hyd at £10,000 ar gyfer materion sy'n ymwneud â Hunaniaeth, Gwasanaethau ac Asedau ar gyfer budd y gymuned.

Gofynnwyd i'r Clerc holi a fyddai'r cynllun i osod cysgodfan newydd yn Llanfrothen yn debygol o fod yn gymwys i'r grant yma.

- **Cronfa Rhandiroedd**

Mae grant ar gael ar gyfer datblygu rhandiroedd cymunedol. Cytunwyd nad oedd gofod gwag ar gyfer creu rhandiroedd yng nghymuned Llanfrothen.

- **Ymgynghoriad ar Gynllun Datblygu Lleol Cyngor Gwynedd - Y Cytundeb Cyflawni**

Ymgynghoriad yw hwn ar gamau cychwynnol Cyngor Gwnedd ar gyfer cyfathrebu a dechrau sefydlu trefn ar gyfer creu Cynllun Datblygu Lleol newydd Cyngor Gwynedd

8. Cynllunio

Dim

9. Materion Eraill

9.1 Pwll Nofio Croesor

Bu aelod o'r cyhoedd mewn cysylltiad, yn gofyn a ydy pwll nofio Croesor yn cael ei ddefnyddio. Awgrymodd y byddai'n beth da pe byddai'r pwll ar gael at ddefnydd y cyhoedd.

Nid yw'r pwll yn perthyn i'r cyngor cymuned. Mae'n debyg fod yna grŵp yng Nghroesor sy'n edrych ar ei ôl, ac mae'n cael ei ddefnyddio o bryd i'w gilydd at ddefnydd y gymuned leol. Nid oes manylion cyswllt ar gyfer y grŵp yma.

9.2 Cynllun Llifogydd Porthmadog.

Bwriedir ffurfio rhestr fer o opsiynau arfaethedig yn gynnar yn 2024, yn dilyn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn ystod 2023.

9.3 Siop a Chaffi Llanfrothen

Bydd y siop a'r caffi yn cau ddechrau Rhagfyr. Bydd Menter Llanfrothen yn edrych am denantiaid newydd.

9.4 Ardal Ddraenio Mewnol Llanfrothen

Gofynnwyd i'r Clerc holi Cyfoeth Naturiol Cymru am ddiweddariad ar y gwaith i gynnal a chadw ffosydd ardal Llanfrothen

Dyddiad y cyfarfod nesaf – 8 Ionawr 2023 am 7 yr hwyr

